Cynhadledd ExChange: Hydref 2016

Jen Lyttleton-Smith, Cydymaith Ymchwil, CASCADE

Mae Jen yn gydymaith ymchwil yn CASCADE ac yn rheolwr prosiect ar gyfer ExChange. Mae ganddi Ddoethuriaeth mewn cymdeithaseg plentyndod a rhyw o Brifysgol Caerdydd, ac mae wedi gweithio mewn rolau amrywiol yn y Brifysgol ers 2011. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys dulliau cyfranogol a chreadigol, plant a phobl ifanc sydd mewn gofal, a damcaniaethau rhyw, rhywioldeb, a goddrychedd. Cyn hyn, mae Jen wedi gweithio ar brosiect mawr gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd yn cymharu dealltwriaethau o hunaniaeth gymdeithasol ar draws Ewrop, gan arbenigo mewn dealltwriaeth leol o rywioldeb. Ers ymuno â CASCADE mae hi wedi gweithio ar nifer o brosiectau gan gynnwys: profiadau gofalwyr ifanc mewn addysg ac iechyd; gwerthusiad o grwpiau sgiliau lles ar gyfer plant mewn gofal; ac ymweliadau gwerthuso o 'ddiwrnod i'r teulu' ar gyfer plant y mae eu mamau yn y carchar. Mae'n rheolaidd yn ddarlithydd gwadd ac yn diwtor seminar ar y radd israddedig cymdeithaseg, gan addysgu modiwlau addysg, plentyndod, rhyw, a theori gymdeithasol. Ochr yn ochr â Dr Louise Roberts mae hi'n gweithio gyda'r elusen 'Voices from Care' i hwyluso 'Lleisiau CASCADE', grŵp o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal sydd wedi'u hyfforddi mewn dulliau ymchwil ac sydd yn rhoi cyngor i ymchwilwyr a gwneuthurwyr polisi. Yn ogystal ag ExChange, mae'n gweithio ar hyn o bryd ar brosiect 'Gwella', sy'n ymwneud ag ymyriadau gyda phobl ifanc sydd mewn risg o gam-fanteisio rhywiol plant, ac mae ei diddordeb yn datblygu o ran ymchwilio i gyd-gynhyrchu canlyniadau lles i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal cymdeithasol.

Donald Forrester, Athro Gwath Cymdeithasol Plant a Theuluoedd, Cyfarwyddwr CASCADE

Mae Donald Forrester yn Athro Gwaith Cymdeithasol Plant a Theulu ym Mhrifysgol Caerdydd, lle mae'n Gyfarwyddwr y Canolfan Gofal Cymdeithasol Plant CASCADE. Mae'r Athro Forrester wedi ymchwilio'n helaeth ar y cysylltiadau rhwng sgiliau ymarfer, canlyniadau ar gyfer plant a theuluoedd a ffactorau sefydliadol sy'n dylanwadu ar ansawdd arferion. Mae wedi arwain 30 o astudiaethau, gyda chyfanswm gwerth o dros £6 miliwn. Mae Astudiaethau o Gyfweld Ysgogiadol (MI) wedi bod yn rhan allweddol o'r rhaglen hon o waith, gyda'r Athro Forrester yn cynnal astudiaethau ar raddfa fawr yn archwilio effaith MI ar deuluoedd a heriau sy'n ymwneud â newid arfer gweithiwr cymdeithasol. Yn fwy diweddar mae wedi bod yn gwerthuso'r prosiectau yn Rhaglen Arloesi'r Adran Addysg sydd wedi anelu at newid i'r system gyfan. Hefyd, arweiniodd yr Athro Forrester raglen rheng flaen oedd yn rhoi dull seiliedig ar ymarfer i addysg gwaith cymdeithasol.

Fiona Verity Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Abertawe

Mae Fiona yn gweithio fel Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol Abertawe, a Chyfarwyddwr Ysgol Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol. Mae'n gymdeithasegydd ac yn weithiwr cymdeithasol gydag arbenigedd mewn datblygu cymunedol, polisi cymdeithasol ac ymchwil gan ymarferwyr. Dechreuodd Fiona ei gyrfa yn Awstralia, yn yr 1980au cynnar, fel gweithiwr datblygu cymuned mewn llywodraeth leol. Wedyn bu'n gweithio mewn datblygu cymunedol yn y sector iechyd cymunedol ac mae wedi cael swyddi mewn Cyrff Anllywodraethol. Fel academydd, mae wedi addysgu ac ymchwilio mewn meysydd polisi cymdeithasol, datblygu cymunedol a chynllunio cymdeithasol. Mae wedi dal safle Dean, Ysgol Astudiaethau Cymdeithasol a Pholisi ym Mhrifysgol Flinders, De Awstralia dros y cyfnod o 2011 i 2013. Mae Fiona wedi bod yn weithgar mewn gwaith cymunedol yn y sector gwirfoddol ac yn fwyaf diweddar roedd yn Gadeirydd ar SA Ieuenctid Amlddiwylliannol.

Lyn Romeo, Prif Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer Oedolion, yr Adran Iechyd

Dechreuodd Lyn Romeo yn ei swydd fel Prif Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer Oedolion ym mis Medi 2013.

Cyn hynny, gweithiodd Lyn fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion ym Mwrdeistref Camden yn Llundain. Mae hefyd wedi gweithio fel arolygydd gyda'r Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â gweithio yn Swydd Efrog am dros 20 mlynedd fel gweithiwr cymdeithasol maes ac mewn amrywiaeth o swyddi rheoli ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion.

Mae'r Prif Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer Oedolion yn gweithio ar y cyd â'r Prif Weithiwr Cymdeithasol ar gyfer Plant a Theuluoedd. Gyda'i gilydd, maen nhw'n creu Swyddfa'r Prif Weithiwr Cymdeithasol i wneud y canlynol:

- cefnogi a herio'r proffesiwn i sicrhau fod plant ac oedolion yn cael y cymorth gorau posibl gan weithwyr cymdeithasol
- rhoi cyngor arbenigol annibynnol i weinidogion ar ddiwygio gwaith cymdeithasol, a chyfraniad gwaith cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol i weithredu polisïau yn fwy cyffredinol
- rhoi arweinyddiaeth a gweithio gydag arweinwyr allweddol yn y proffesiwn a'r sector ehangach i ddatblygu'r rhaglen wella a diwygio gwaith cymdeithasol
- herio arferion gwan i gyflawni gwelliannau pendant yn ansawdd y gwaith cymdeithasol
- cynnig arweiniad i rwydwaith o brif weithwyr cymdeithasol

Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru

Albert Heaney yw Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio yng Nghymru ar gyfer Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae Albert yn aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ac yn Gadeirydd Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru. Cyn y swydd hon, Albert oedd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn arwain ar y Gwasanaethau Plant ac Oedolion gyda dros 25 mlynedd o brofiad ym maes Gofal Cymdeithasol; ar ôl cael rolau yn y sector Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Sector Gwirfoddol. Gweithiodd yn flaenorol ar gyfer yr NSPCC gan gwmpas De a Gorllewin Cymru. Mae ganddo hefyd brofiad gweithio yn CAMHS. Mae Albert yn gyn-Lywydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru). Mae wedi cynrychioli ADSS Cymru mewn nifer o rolau gan gynnwys Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Plant a'r Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Gwarchod ac Atal. Mae'n gyn Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant a'r Pwyllgor Ardal Amddiffyn Oedolion. Mae Albert wedi ymrwymo i hyrwyddo a sicrhau hawliau dinasyddion ac arferion cynhwysol. Mae'n dod ag ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ac wedi cymryd rhan weithredol mewn amrywiaeth o fentrau cydweithio ac integreiddio.

Gerry Evans, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Safonau Proffesiynol, Cyngor Gofal Cymru

Mae gan Gerry Evans, Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Safonau Proffesiynol a Dirprwy Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru ers 2002, dros 20 mlynedd o brofiad mewn ymchwil a phrosiectau datblygu sy'n canolbwyntio ar waith gyda phobl hŷn, pobl gydag anableddau dysgu a chyflawni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Mae Gerry wedi cyhoeddi'n helaeth ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol ac wedi ymgymryd â phrosiectau yn y DU ac Ewrop.

Yn ei rôl bresennol, mae Gerry yn gyfrifol am reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru a rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Ef hefyd yw pennaeth sefydlu byrddau rhaglen ar reoleiddio'r gweithlu, datblygu gofal cymdeithasol a datblygu rheolwyr gofal cymdeithasol. Mae Gerry yn cynrychioli'r

Cyngor Gofal ar amrywiol brosiectau Cymru Gyfan ac yn cysylltu â chyrff eraill y DU a Chymru ynghylch datblygu polisi.